## ADRAN 8. CASGLIADAU

### 8.1 Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar gyfer y DU gyfan ar y cynhigion i gyfyngu ar werthu a chyflenwi fêps untro ar 12 Hydref 2023. Daeth bron 28,000 o ymatebion i law. Dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad y pedair gwlad a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr gefnogaeth glir i gyfyngiadau ar werthu a chyflenwi fêps untro. O'r ymatebion a ddaeth i law yng Nghymru, cytunodd 60.4% y dylai'r cyfyngiadau ar fêps tafladwy untro fod ar ffurf gwaharddiad ar eu gwerthu a'u cyflenwi. Themâu cyffredin ymhlith y rhai a oedd yn cytuno â gwaharddiad oedd pryderon ynghylch y cynnydd mewn gwastraff plastig, cemegau niweidiol yn treiddio i'r amgylchedd a'r risg o dân o ganlyniad i gael gwared ar fêps untro yn y ffordd anghywir.

Nodwyd yr effeithiau ar ddefnyddwyr hŷn, pobl â phroblemau o ran deheurwydd, pobl mewn lleoliadau iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol, carchardai a'r digartref mewn perthynas â rhoi'r gorau i ysmygu, yn ogystal â'r effaith ar blant a phobl ifanc a allai fod yn ddibynnol ar nicotin eisoes.

Yn 2024, lluniodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein, a rannwyd ag Ysgolion Eco drwy'r cyfryngau cymdeithasol, i gasglu barn plant a phobl ifanc. Cafodd cefndir y polisi a holiadur eu rhannu â phlant a phobl ifanc 14–18 oed yn y gynhadledd 'Ein Daear, Ein Dyfodol' ym mis Gorffennaf.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Yn 2024, cafodd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i dargedu ei gynnal gyda grwpiau lle roedd effeithiau posibl wedi cael eu nodi yn yr ymgynghoriad. Roedd y gwaith ymgysylltu hwn yn ystyried yr effeithiau ar wahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys plant a phobl ifanc, y canlyniadau cadarnhaol, negyddol neu anfwriadol posibl a chamau lliniaru.

**Effeithiau negyddol tymor byr**

Mae'n debygol y bydd costau ychwanegol i unigolion yng Nghymru sy'n fepio ac yn defnyddio fêps untro, a fydd yn effeithio ar gyfran uwch o'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig. Yn y tymor byr, gallai hyn gyfrannu at gynnydd mewn costau byw y mae unigolion o aelwydydd incwm is yng Nghymru yn dweud eu bod yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl, iechyd corfforol a pherthnasoedd teuluol.

Yn bwysig, grwpiau yw'r rhain lle y gwelir cyfraddau uwch o ysmygu fel arfer (e.e. pobl ar incwm is, pobl â chyflyrau iechyd meddwl ac ati). Mae'r rhain yn cynrychioli grwpiau â blaenoriaeth o fewn poblogaeth Cymru ar gyfer targedu anghydraddoldebau a achosir gan ysmygu tybaco fel y nodir yn 'Cymru ddi-fwg: Ein strategaeth hirdymor ar gyfer rheoli tybaco' (Llywodraeth Cymru, 2022).

Er na nodwyd unrhyw dystiolaeth uniongyrchol, cawsom wybod am rwystrau posibl (e.e. cost, cymhlethdod ac ati) i newid i ddyfeisiau eraill y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl ac amhariadau corfforol, synhwyraidd a/neu ddysgu. Gallai hyn, mewn rhai achosion, gael effaith negyddol ar roi'r gorau i ysmygu.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae sawl fersiwn o fêps y gellir eu hailddefnyddio ar gael, gyda rhai o bosibl yn haws i unigolion a allai fod yn ei chael yn anoddach cael mynediad atynt a'u defnyddio (e.e. pobl â phroblemau deheurwydd, anawsterau gweledol, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol ac ati).

Nid yw fêps untro yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan wasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu GIG Cymru ('Helpa Fi i Stopio'), ac felly ychydig iawn o effaith uniongyrchol fydd ar y darpariaethau a gynigir gan y gwasanaethau hyn. Byddant yn parhau i gefnogi ysmygwyr i roi'r gorau i ysmygu drwy gymhorthion rhoi'r gorau i ysmygu a therapi disodli nicotin.

Yn y tymor hwy, mae dyfeisiau y gellir eu hailddefnyddio'n fwy cost-effeithiol a gallant sicrhau gostyngiad mwy graddol mewn cryfder nicotin o gymharu â fêps untro. Gallai hyn helpu'r rhai sy'n profi anfanteision economaidd-gymdeithasol wrth iddynt geisio fepio llai neu roi'r gorau fepio'n gyfan gwbl.

**Effeithiau cadarnhaol tymor hwy ac effeithiau tymor byr**

Bydd y gwaharddiad ar fêps untro yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar hawliau plant, fel y'u diffinnir gan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) wedi nodi bod y gwaharddiad ar fêps untro yn bodloni'r gofyniad yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol Erthyglau 3, 6, 12, 13, 17, 24, 29, 31, 33 a 36.

Disgwylir i'r polisi gael effeithiau cadarnhaol ar hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru drwy ddiogelu eu hamgylchedd, eu hiechyd, eu buddiannau gorau yn ogystal â'u hamddiffyn rhag camfanteisio. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth, arweiniad a chymorth iddynt ynghylch rhoi'r gorau i fepio ac ysmygu. Disgwylir i'r polisi gael rhai effeithiau negyddol ar hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, drwy gyfyngu ar eu rhyddid mynegiant, mynediad at wybodaeth a gweithgareddau

hamdden, chwarae a diwylliant. Mae potensial hefyd i blant a phobl ifanc gael eu gwthio tuag at y farchnad ddu neu gynhyrchion tybaco eraill. Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn yn debygol o gael eu gorbwyso gan fanteision y polisi a gellir eu lliniaru gan fesurau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod y polisi'n glir, yn gyson ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd â strategaethau addysg, ymgysylltu a gorfodi.

Yn dilyn y pryderon a godwyd gan blant a phobl ifanc ar effeithiau'r gwaharddiadau, comisiynodd Llywodraeth Cymru Youth Friendly i gynhyrchu fersiynau 'addas i bobl ifanc' o'n cynigion polisi a'n holiaduron. Bydd hyn yn cefnogi ein gwaith ymgysylltu parhaus â phlant a phobl ifanc yn well drwy gydol 2024/25.

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiad cenedlaethol a byd-eang parhaus i'n hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a'n hamgylchedd naturiol. I gydnabod hyn, ym mis Ebrill 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yng Nghymru. Mae cynhyrchu a gweithgynhyrchu fêps untro yn effeithio ar yr amgylchedd. Yn fwyaf nodedig, allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd, a'r defnydd o ddŵr, a amlinellir yn adroddiad technegol Zero Waste Scotland.

Mae gwybodaeth yn y Llyfrgell Genedlaethol Meddyginiaeth yn amlinellu sut y gall y newid yn yr hinsawdd effeithio'n negyddol ar allu rhywogaethau i hela, osgoi ysglyfaethwyr ac atgenhedlu. Gall yr effaith hon ar fioamrywiaeth arwain at ddiffygion yng ngallu cynefin i gynnal amrywiaeth o rywogaethau unigol a darparu safleoedd nythu. Bydd yr effeithiau hyn yn dylanwadu ar y gwasanaethau y gall yr ecosystem eu darparu ar gyfer poblogaethau dynol, fel cynhyrchu bwyd a dal a storio carbon.

Mae cyflwyno gwaharddiad ar argaeledd fêps untro problemus diangen yn rhan o becyn o fesurau ehangach i leihau effaith negyddol sbwriel, llygredd plastig a'r newid yn yr hinsawdd ar ein hamgylchedd.

Mae ein deddfwriaeth hefyd yn ategu ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau ein bod yn 'ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn'. O dan yr addewid cwmpasol hwn, ceir ymrwymiad penodol i '[Dd]eddfu i ddiddymu’r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel'.

### 8.2 Yng ngoleuni’r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

**a) yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant;**

Mae ein cynnig yn effeithio'n gadarnhaol ar nodau *Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* a’i egwyddor datblygu cynaliadwy hy. drwy geisio sicrhau bod anghenion y presennol

yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae mynd i'r afael â llygredd plastig yn helpu i gynnal a gwella ein hamgylchedd naturiol amrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch ecolegol, economaidd a chymdeithasol, a'r gallu i addasu i newid (Cymru gydnerth).

Mae cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu taflu'n sbwriel yn aml yn dadelfennu'n ficroblastigau, a all fynd i mewn i gadwyn fwyd anifeiliaid a phobl. Mae lleihau faint o blastig sy'n ein hamgylchedd felly'n cyfrannu at Gymru iachach (cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol). Mae Cymru eisoes yn arwain y byd ar ailgylchu ac mae ein rheoliadau arfaethedig yn gam ychwanegol tuag at symud i ffwrdd o weithgynhyrchu a gwaredu cynhyrchion untro diangen. Bydd hyn yn cyfrannu at ein nodau ehangach o fynd i'r afael â heriau byd-eang yr argyfyngau hinsawdd a natur (Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang). Mae diogelu ecosystemau naturiol a bioamrywiaeth yn gwella cyfalaf diwylliannol Cymru ac yn cefnogi gweithgareddau awyr agored. Wrth inni ddatblygu ein cynigion, byddwn yn sicrhau safonau cyfartal o ran dulliau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg (Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu).

Wrth i Gymru symud oddi wrth gynhyrchion untro, mae cyfleoedd yn codi i fusnesau Cymru arloesi a datblygu dewisiadau amgen cynaliadwy i'r cynhyrchion untro rydym yn eu defnyddio heddiw (Cymru lewyrchus).

Bydd ein cynigion yn lleihau effaith negyddol sbwriel, llygredd plastig a'r newid yn yr hinsawdd ar ein hamgylchedd a'n hiechyd a'n lles. Nodwyd mai newid hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf y mae cenedlaethau'r dyfodol yn eu hwynebu; bydd gweithredu'r cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar amddiffyn ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n lles yn y tymor byr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**b) yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd fêps y gellir eu hailddefnyddio a chymhorthion rhoi'r gorau i smygu, gan gynnwys therapi disodli nicotin, yn parhau i fod ar gael.

**8.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r gwaith fynd rhagddo, ac wedi iddo gael ei gwblhau?**

Amcanion polisi'r cynigion hyn yw:

- Lleihau'n gyflym y niwed amgylcheddol a achosir wrth ddefnyddio deunyddiau crai critigol a gwaredu fêps untro yn anghywir mewn ffrydiau gwastraff gweddilliol a thrwy eu taflu'n sbwriel.

- Annog newid ymddygiad ehangach a mwy cynaliadwy wrth ddefnyddio cynnyrch untro i fynd i'r afael â'r diwylliant 'defnyddio a thaflu'.

- Annog symud tuag at ddewisiadau amgen y gellir eu hailddefnyddio.

Mae'r polisi hwn yn rhan hefyd o agenda ehangach y llywodraeth i ddelio â fêpio ymhlith pobl ifanc.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredol o'r ddeddfwriaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddi fod mewn grym am dair blynedd. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn asesu effeithiolrwydd y polisi wrth gyflawni ei amcanion.

Mae damcaniaeth newid gychwynnol wedi'i nodi yn Defra IA a fydd yn cael ei hystyried wrth arwain canlyniadau mesuradwy yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ganlyniadau ar gyfer monitro drwy'r amryw Asesiadau Effaith (e.e. effeithiau perthnasol ar grwpiau penodol).

Er nad yw manylion yr adolygiad wedi cael eu penderfynu hyd yn hyn, rydym yn rhagweld y byddai'n cynnwys:

- Nodi a gwerthuso’r effaith y mae’r ddeddfwriaeth wedi’i chael ar ddefnyddio fêps untro ac ar ymddygiad cysylltiedig defnyddwyr yng Nghymru.

- Nodi a gwerthuso pa effeithiau y mae’r ddeddfwriaeth wedi’u cael ar fusnesau yng Nghymru.

- Nodi a gwerthuso i ba raddau y mae’r ddeddfwriaeth wedi llwyddo i annog newid i gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio.

- Lle bo’n bosibl, canfod a gwerthuso i ba raddau y mae sbwriel plastig untro wedi lleihau ar ôl i’r ddeddfwriaeth ddod i rym.